



Llunio ein
Llesiant
i'r Dyfodol
Shaping Our Future
Wellbeing



Tegwch a Chynhwysiant
Equity & Inclusion



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Llunio Ein Diwylliant Cynhwysol

Amcanion a Chynllun Cydraddoldeb Strategol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

2024 – 2028



Rhoi Pobl yn Gyntaf

- 3 Rhagair
- 4 Amdanom ni a'n Hamcanion Cydraddoldeb Stratego
- 5 Ein Gwerthoedd
- 6 Ein Dull Gweithredu
- 8 Amcan 1: Parch
- 9 Amcan 2: Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- 10 Amcan 3: Hygyrchedd
- 11 Amcan 4: Data
- 12 Monitro ac Adolygu
- 12 Adborth

Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn nodi Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Bwrdd Iechyd a'i ddull o lunio ein diwylliant cynhwysol. Wrth i ni gychwyn ar y daith hon, mae'n bwysig cydnabod arwyddocâd dwfn tegwch, cynhwysiant ac amrywiaeth o fewn cymunedau Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae darparu gofal iechyd o ansawdd uchel i'n poblogaeth amrywiol wrth wraidd ein hymrwymiad i lesiant pob unigolyn.

Mae'r pandemig Covid 19 wedi amlygu'r gwahaniaethau mewn canlyniadau iechyd, mynediad at ofal iechyd, a phrofiadau amrywiol unigolion yng Nghymru. Mae wedi amlygu'r angen dybryd i ni fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn a chryfhau ein hymrwymiad i adeiladu system gofal iechyd sy'n ymatebol, yn gynhwysol ac yn deg.

Mae Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Bwrdd Iechyd yn ymrwymiad i gynnal ein fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad sefydliadol. Mae'r amcanion hyn yn cyd-fynd â'n strategaeth gyffredinol, Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol, gan atgyfnerthu ein hymroddiad i 'Rhoi Pobl yn Gyntaf' a 'Darparu Ansawdd Eithriadol.' Mae ein haddewid i feithrin diwylliant cynhwysol, sy'n cynrychioli ein poblogaeth leol, a'n huchelgais i leihau anghydraddoldebau atal, mynediad at wasanaethau clinigol, a chanlyniadau clinigol yn elfennau annatod o'r strategaeth hon.

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y broses ymgysylltu, gan gyfrannu eu mewnwelediadau a'u profiadau i lunio ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol. Mae eich mewnbyn gwerthfawr wedi bod yn allweddol wrth lunio amcanion sy'n cyd-fynd ag anghenion a dyheadau ein cymunedau.

Wrth i ni ddechrau gweithredu'r amcanion hyn, edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid yn ein cymunedau a ledled GIG Cymru. Gyda'n gilydd, byddwn yn llywio llwybr tuag at system gofal iechyd sydd nid yn unig yn diwallu anghenion amrywiol ein poblogaeth ond sydd hefyd yn gweithredu fel esiampl o ragoriaeth o ran cynwysoldeb, ymatebolrwydd ac ansawdd.

Wrth gloi, mae ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol yn hanfodol bwysig; maent yn cynrychioli ein hymrwymiad ar y cyd i ddyfodol lle mae gofal iechyd yn hygyrch i bawb, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

Charles Janczewski
Cadeirydd

Suzanne Rankin
Prif Weithredwr



Amdanom ni a'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol

Pwy ydym ni

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw un o sefydliadau GIG mwyaf y DU ac fe'i sefydlwyd yn 2009. Fel Bwrdd Iechyd mae gennym gyfrifoldeb am iechyd tua 500,000 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gan gynnwys darparu gwasanaethau gofal sylfaenol lleol (practisau meddyg teulu, deintyddion, optometryddion a fferyllwyr cymunedol) a chynnal ysbytai, canolfannau iechyd a thimau iechyd cymunedol. Yn ogystal â darparu gofal iechyd i gymunedau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg, rydym yn darparu ystod eang o wasanaethau tra arbenigol i boblogaeth De Cymru a thu hwnt. Mae gennym y cymunedau mwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd a diwylliant yng Nghymru ac rydym yn cyflogi tua 17,000 o staff.

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu a'r cyfleusterau lle cânt eu cynnal, ar wefan y Bwrdd Iechyd yn yr adran Ein Gwasanaethau.

Pam fod gennym Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Fel corff sector cyhoeddus, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ymfalchïo mewn sicrhau ein bod yn parhau i wella ein gwasanaethau. Mae hyn er mwyn i ni allu diwallu anghenion y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn well. Cawn ein harwain gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sy'n galw arnom i feddwl i'r dyfodol a rhoi Amcanion Cydraddoldeb Strategol ar waith, a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Mae deddfwriaeth arall sy'n llywio'r amcanion hyn yn cynnwys Deddf Hawliau Dynol (1998), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Gwasanaethau Gymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu Hygyrch a

Gwybodaeth i Bobl â Nam ar y Synhwyrâu, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal, mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2010 hefyd wedi'u hystyried.

Beth yw Amcanion Cydraddoldeb Strategol ?

Fel rhan o'n dyletswyddau penodol mae'n ofynnol i ni ddatblygu a chyhoeddi ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd. Mae'r amcanion hyn yn nodi blaenoriaethau cydraddoldeb strategol y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio ar sut y gallwn ychwanegu at gymdeithas gynhwysol decach a symud ymlaen ar gydraddoldeb a chysylltiadau da. Mae'r amcanion yn benodol ac yn cyfeirio ein sylw at sut rydym yn darparu gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth mewn perthynas â 'nodweddion gwarchodedig' a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol 2020.

Datblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb

Yn ystod 2023/24 fe wnaethom ymgysylltu â chleifion, staff, partneriaid, a rhanddeiliaid allweddol eraill. Fe wnaethom ofyn iddynt beth yn eu barn nhw ddylai fod yn flaenoriaethau cydraddoldeb ar gyfer y Bwrdd Iechyd am y pedair blynedd nesaf. Gwnaethom hefyd nodi pa ymchwil a gwybodaeth oedd eisoes ar gael i helpu i ddatblygu'r amcanion, gan gynnwys y gwaith a wnaed wrth ddatblygu Strategaeth Llundun Ein Llesiant i'r Dyfodol y Bwrdd Iechyd.

Yn ogystal, aethom ati'n benodol i holi cleifion, staff, partneriaid, sefydliadau cydraddoldeb a thrydydd sector a phobl eraill ynghylch a ddylid cadw amcanion y Bwrdd Iechyd a osodwyd yn flaenorol fel y maent, eu newid neu a oedd angen i ni ychwanegu rhai newydd.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan werthoedd a bydd ein nodau yn cael eu gwireddu dim ond os yw ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Wedi'u creu gan gydweithwyr, cleifion a'u teuluoedd a'u gofawyr, ein gwerthoedd yw:

- Rydym yn **garedig ac yn ofalgar**
- Rydym yn **barchus**
- Rydym yn **meddu ymddiriedaeth a gonestrwydd**
- Rydym yn **cymryd cyfrifoldeb personol**

Gan fyw yn ôl y gwerthoedd hyn bob dydd, byddwn yn creu'r diwylliant sydd ei angen i gyfiawni ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn parhau i gydweithio a gwrando ar gydweithwyr, cleifion a phartneriaid i sicrhau bod ymddygiadau yn adlewyrchu'r gwerthoedd hyn a bod pobl yn hyderus i herio eraill yn briodol pan nad yw ymddygiadau yn cyd-fynd â'n gwerthoedd.

*Mae ein
gwerthoedd wrth
wraidd popeth
a wnawn*



Ein Dull Gweithredu

Yn ein hymrwymiad i feithrin tegwch, cynhwysiant, ac amrywiaeth, mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu dull sefydliadol cyfan o gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol. Mae'r dull hwn wedi'i alinio'n strategol ag egwyddorion troswaol ein Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cofleidio Fframwaith 3l, Cynllun Gweithredu Tegwch, Cydraddoldeb, Profiad a Diogelwch Cleifion y Bwrdd lechyd, fel fframwaith arweiniol ar gyfer ein mentrau.

Mae ein dull o gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn cyd-fynd â Chynllun Pobl a Diwylliant y Bwrdd lechyd, gan atgyfnerthu rôl ganolog ein gweithlu o ran gwireddu'r amcanion hyn. Drwy sicrhau bod lles ein staff yn ganolog i'n cynllun, rydym yn cydnabod bod cynrychioli'r boblogaeth amrywiol a wasanaethwn yn gofyn am weithle ffyniannus a chynhwysol. Mae'r ymrwymiad hwn yn cyd-fynd â saith thema'r Cynllun Pobl a Diwylliant, gan bwysleisio'r gyd-ddibyniaeth rhwng llesiant gweithwyr, cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant, a hyrwyddo'r Gymraeg. Gan gydnabod bod ein gweithlu yn adlewyrchiad o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, rydym yn ymroddedig i feithrin diwylliant sydd nid yn unig yn cefnogi twf proffesiynol a boddhad ein staff ond sydd hefyd yn hyrwyddo ein gwerthoedd sefydliadol yn weithredol.

Agwedd annatod o'n dull gweithredu yw cydnabod croestoriadedd. Rydym yn deall bod gan unigolion o fewn ein cymunedau amrywiol hunaniaethau a phrofiadau sy'n gorgyffwrdd, sy'n gofyn am ddull cynnil a chynhwysol sy'n mynd i'r afael â'r heriau unigryw a wynebwr gan wahanol grwpiau. Trwy ymgorffori croestoriadedd yn ein rhaglenni a'n cynlluniau, ein nod yw sicrhau bod ein mentrau'n adlewyrchu natur

amlochrog amrywiaeth mewn gwirionedd.

Ar y cyd â'n cynlluniau sefydliadol, rydym wedi ymrwymo i alinio â chynlluniau gweithredu cenedlaethol megis Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru, Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru, a Mwy na Geiriau. Trwy gydlynw ein hymdrechion gyda'r mentrau ehangach hyn, rydym yn ceisio ehangu effaith ein gweithredoedd a chyfrannu at symudiad ar y cyd tuag at gydraddoldeb.

Fel rhan o'n hymrwymiad i welliant parhaus, mae ein cynlluniau gweithredu a'n rhaglenni sefydliadol yn amlinellu strategaethau a chymau gweithredu penodol sydd wedi'u hanelu at gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol a amlinellwyd. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd atebolrwydd clir a llinellau amser sefydledig ar gyfer gweithredu er mwyn ysgogi newid ystyrlon o fewn y Bwrdd lechyd.

Gan ragweld gofynion deddfwriaethol y dyfodol, rydym yn ymrwymo i aros yn wybodus ac addasu ein dull gweithredu i gyd-fynd â fframweithiau cyfreithiol esblygol. Byddwn hefyd yn mabwysiadu'r dull hwn o ddatblygu blaenoriaethau, cynlluniau a rhaglenni sefydliadol er mwyn sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol yn berthnasol ac yn gyfredol.

Mae ymgorffori Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar lechyd (EHAs) yn ein dull gweithredu sefydliadol yn fecanwaith hanfodol i werthuso'n systematig effaith polisiâu, gweithdrefnau a strategaethau'r Bwrdd lechyd ar unigolion o gymunedau amrywiol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd amrywiol. Mae cynnal EHAs yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer

dadansoddi effeithiau gwahaniaethol posibl, gan sicrhau nad yw ein mentrau, yn anfwriadol, yn gwaethygu'r gwahaniaethau presennol. Drwy asesu'r effaith bosibl ar wahanol grwpiau demograffig, gallwn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai effeithio'n anghymesur ar gymunedau penodol. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i gynhwysiant ac yn ein galluogi i deilwra polisiau a strategaethau i ddiwallu anghenion amrywiol ein poblogaeth yn well. Bydd y mewnwelediadau a geir gan EHAs yn hanfodol i lywio ein hymdrechion tuag at greu amgylchedd gofal iechyd teg a hygyrch i bawb.

Bydd monitro a gwerthuso yn hollbwysig i'n llwyddiant. Byddwn yn sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) ac yn cynnal gwerthusiadau rheolaidd i asesu effeithiolrwydd ein camau gweithredu. Mae'r ymrwymiad hwn i asesu a gwella'n barhaus yn dangos ein hymroddiad i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol.

Mae gwireddu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol yn dibynnu ar gydgyfrifoldeb pob aelod o'n staff. Mae gan bob unigolyn sy'n gweithio yn y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb personol i gyfrannu'n weithredol at feithrin diwylliant cynhwysol. Drwy gydnabod a mynd i'r afael â gwahaniaethau, croesawu amrywiaeth, a hyrwyddo diwylliant o barch, mae ein staff yn chwarae rhan ganolog mewn lleihau anghydraddoldebau iechyd a sicrhau mynediad teg i ofal iechyd i bawb. Mae creu gweithle sydd nid yn unig wedi ymrwymo i'r amcanion hyn ond sy'n ymdrechu'n frwd i'w hymgorffori yn hanfodol. Felly, mae gan bob aelod o staff ddyletswydd i hyrwyddo cynhwysiant, cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd, a chyfrannu'n weithredol at feithrin amgylchedd gwaith sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i fod yn lle gwyh i hyfforddi, gweithio a byw ynddo. Mae'r cyfrifoldeb hwn a rennir yn


atgyfnerthu ein hymrwymiad ar y cyd i werthoedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan ei wneud yn rhan annatod o wead ein sefydliad.

Mae'r dull sefydliadol hwn wedi'i lunio i'n harwain tuag at gyflawni ein pedwar Amcan Cydraddoldeb Strategol, sy'n canolbwyntio ar:

1. Parch
2. Cyfathrebu ac Ymgysylltu
3. Hygyrchedd
4. Data

Mae ein ffocws ar groestoriadedd ac alinio â Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol yn sicrhau diwylliant cynhwysol o barch, gan gydnabod a mynd i'r afael â'r heriau unigryw a wynebwr gan grwpiau amrywiol. Trwy gydweithio gweithredol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, ein nod yw gwella cyfathrebu ac ymgysylltu, gan feithrin profiad gofal iechyd cyfranogol. Mae'r pwyslais ar hygyrchedd wedi'i integreiddio i'n cynlluniau, gan gynnwys cymunedau amrywiol yn weithredol wrth wneud gofal iechyd yn fwy ymatebol. Gan fanteisio ar fewnwelediadau wedi'u llywio gan ddata, rydym yn ymrwymedig i fonitro a gwerthuso ein mentrau, gan gyfrannu at lwybr tryloyw ac atebol tuag at degwch a chynhwysiant.

Gyda'n gilydd, edrychwn ymlaen at adeiladu Caerdydd a Bro Morgannwg iachach, mwy teg a chynhwysol.



Parch

Amcan:

Meithrin diwylliant cynhwysol o barch trwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ac addysg, gan sicrhau bod pob unigolyn, gan gynnwys staff, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, yn cael gofal ag urddas, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Addysg

Er mwyn cyflawni ein hymrwymiad i feithrin diwylliant cynhwysol o barch, byddwn yn blaenoriaethu addysg fel congfaen ein dull gweithredu. Bydd cyrsiau arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael eu teilwra i gynnwys modiwlau ar amrywiaeth, tosturi, a hyrwyddo amgylcheddau gweithle parchus. Trwy ddarparu'r offer i'n timau arwain i gofleidio arweinyddiaeth dosturiol, ein nod yw creu diwylliant o'r brig i lawr sy'n gwerthfawrogi ac yn blaenoriaethu cynhwysiant.

Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod arwyddocâd ymestyn addysg y tu hwnt i'n staff mewnol i gynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd gweithredu mentrau addysgol ar gyfer y grwpiau hyn yn rhoi'r wybodaeth iddynt allu cymryd rhan weithredol yn ein hymrwymiad ar y cyd i barch ac urddas a chyfrannu ato. Trwy raglenni addysgol cynhwysfawr, ein nod yw meithrin cymuned sydd nid yn unig yn ymwybodol o bwysigrwydd tegwch, cynhwysiant a pharch ond sydd hefyd yn meddu ar y sgiliau a'r ddealltwriaeth i'w hymarfer a'i hyrwyddo'n weithredol.

Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth

Wrth geisio sicrhau diwylliant cynhwysol, byddwn yn lansio ymgyrchoedd

ymwybyddiaeth gan ddefnyddio ein calendr cynhwysiant, gan nodi dyddiadau a digwyddiadau allweddol. Mae'r calendr hwn yn sicrhau bod ein mentrau'n cyd-fynd â themâu perthnasol, gan hyrwyddo amrywiaeth a pharch.

Er mwyn gwella tryloywder a didwylledd, anogir staff i godi pryderon trwy Leisio Barn yn Ddiogel, gan hwyluso datrysiad prydlon. Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn cael eu grymuso i leisio pryderon drwy Gweithio i Wella.

Bydd ein fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad sefydliadol yn ganolog, gan arwain pob agwedd ar ein rhyngweithio gydag ymrwymiad i barch ac urddas. Yn ogystal, byddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo rhwydweithiau staff yn weithredol, gan gydnabod eu rôl wrth greu ymdeimlad o berthyn a phwysigrwydd rhoi llais i'n pobl trwy gryfhau ac adeiladu rôl rhwydweithiau staff. Nod yr ymdrechion integredig hyn yw meithrin diwylliant o gynhwysiant yn ein sefydliad.



Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Amcan:

Gwella sianeli a strategaethau cyfathrebu i wneud gwybodaeth yn hygyrch i bawb, gan feithrin ymgysylltiad cynhwysol.

Sianeli Cyfathrebu:

Er mwyn gwella sianeli cyfathrebu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae blaenoriaethu adborth yn hanfodol. Mae gwrandao'n astud ar leisiau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a staff yn hanfodol ar gyfer meithrin cynhwysiant, ac mae'n cysylltu â'n blaenoriaeth strategol o 'Rhoi Pobl yn Gyntaf'.

Mae sefydlu mecanweithiau adborth cadarn yn sicrhau ein bod nid yn unig yn clywed ond hefyd yn deall y safbwyntiau amrywiol o fewn ein cymuned. Drwy

gymryd rhan mewn deialog ystyrlon, gallwn nodi anghenion a phryderon penodol, gan ganiatáu inni deilwra ein sianeli cyfathrebu i gyrraedd ac ymgysylltu'n effeithiol â'n poblogaeth amrywiol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod gwybodaeth nid yn unig yn cael ei lledaenu ond ei bod yn hygyrch ac yn berthnasol i bawb.

Strategaethau Ymgysylltu:

Mae cydweithredu a chydgyhyrchu yn strategaethau hanfodol sy'n cyd-fynd â strategaeth Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth, gan gynnwys lleihau gwahaniaethau annheg mewn canlyniadau iechyd, drwy weithio gyda chymunedau lleol a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i'r afael â'r materion sy'n achosi salwch y gallir ei atal a marwolaethau cynamserol.

Mae ymdrechion ar y cyd yn golygu y gallir datblygu deunyddiau a dulliau ymgysylltu sy'n sensitif yn ddiwylliannol ac yn berthnasol i wahanol gymunedau. Mae'r dull hwn nid yn unig yn gwella effeithiolrwydd ein hymgyssylltu, ond hefyd yn cryfhau'r ymdeimlad o berchnogaeth ac ymgysylltiad cymunedol.

Drwy blethu cydweithio a chydgyhyrchu i'n strategaethau ymgysylltu, rydym yn cyd-fynd â'r nod sefydliadol ehangach o lunio llesiant yn y dyfodol sy'n gynhwysol ac yn ymatebol i anghenion pawb



Hygyrchedd

Amcan:

Gwella hygyrchedd ein gwasanaethau a'n cyfleusterau iechyd, gan greu amgylchedd gwaith a gofal iechyd mwy cynhwysol i bawb.

Hawdd ei gyrchu:

Er mwyn gwella hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau iechyd mae angen dull gweithredu amlochrog. Yn gyntaf, mae mabwysiadu dulliau cyfathrebu hygyrch yn hollbwysig. Mae cyfathrebu ag unigolion mewn ffyrdd sy'n bodloni eu hanghenion amrywiol yn meithrin cynwysoldeb.

Mae cofleidio technoleg yn gwella hygyrchedd ymhellach, gan ddarparu llwyfannau ar gyfer ymgynghoriadau rhithwir, adnoddau ar-lein, a systemau apwyntiadau symlach. Yr un mor hanfodol yw sicrhau y gall pobl gael mynediad corfforol at safleoedd a chyfleusterau, a'u bod yn bodloni anghenion symudedd a synhwyrdd amrywiol yr holl ddefnyddwyr.

Drwy flaenoriaethu'r agweddau hyn, gall Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro greu amgylchedd lle mae gofal iechyd yn hygyrch i bawb.

Y Gymraeg:

Gan alinio â'r strategaeth genedlaethol Mwy na Geiriau, mae blaenoriaethu'r Gymraeg mewn gofal iechyd yn hollbwysig. Mae cadw at Safonau'r Gymraeg yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddwyieithog, gan hybu cynhwysiant. Pwysleisir pwysigrwydd gofal iechyd Cymraeg trwy gydymffurfio â safonau a chyfranogiad gweithredol yn

Cymraeg 2050, gyda'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Trwy integreiddio'r Gymraeg yn ddi-dor i wasanaethau iechyd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cyfrannu at amgylchedd gofal iechyd mwy cynhwysol ac ieithyddol amrywiol.

Addysg:

Mae addysg yn chwarae rhan ganolog wrth sicrhau amgylchedd gofal iechyd cynhwysol. Rhaid addysgu staff ar gyfathrebu effeithiol gyda phoblogaeth amrywiol, gan gwmpasu gwahanol ieithoedd a fformatau cyfathrebu. Dylai rhaglenni hyfforddi roi'r sgiliau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddarparu gofal sy'n ddiwylliannol sensitif ac sy'n briodol i'r iaith.

Yn ogystal, mae addysgu staff ar gefnogi cleifion a defnyddwyr gwasanaeth i lywio a chael mynediad at wasanaethau gofal iechyd o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn meithrin amgylchedd lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ddigonol ar eu taith gofal iechyd. Mae addysg barhaus yn sicrhau bod y system iechyd yn parhau i ymateb i anghenion esblygol cymuned amrywiol.

Amcan:

Gwella cywirdeb y broses o gasglu a dadansoddi data i nodi a mynd i'r afael ag annhegwch o ran canlyniadau iechyd a phrofiad staff.

Cynllunio'r Gweithlu:

Mae cynllunio gweithlu effeithiol yn hanfodol i fynd i'r afael â thegwch o ran canlyniadau iechyd a phrofiad staff. Gall data fod yn arf pwerus wrth fesur a ydym yn sefydliad sy'n cynrychioli proffil demograffig amrywiol Caerdydd a Bro Morgannwg. Drwy fanteisio ar ddata, gall y bwrdd iechyd nodi bylchau mewn cynrychiolaeth a rhoi strategaethau wedi'u targedu ar waith i wella amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd cael gweithlu sy'n cynrychioli ein poblogaeth yn galluogi ein staff i ddeall yn well anghenion unigol ein cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

At hynny, dylai cynllunio gweithlu ymestyn y tu hwnt i niferoedd; dylai gynnwys datblygu sgiliau i arfogi ein staff â'r cymhwysedd diwylliannol sydd ei angen i ddarparu gofal o safon i'r boblogaeth amrywiol a wasanaethwn. Mae hyn yn cynnwys cydnabod pwysigrwydd data sgiliau Cymraeg i sicrhau bod ein gweithlu wedi'i baratoi'n ddigonol i ddarparu gofal iechyd Cymraeg. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn sicrhau bod ein gweithlu wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y dirwedd gofal iechyd esblygol ac yn gallu diwallu anghenion ieithyddol y gymuned yn effeithiol.

Adrodd ar y Bwlch Cyflog:

Mae deall bylchau cyflog ac adrodd arnynt yn elfen allweddol o fynd i'r afael ag annhegwch o fewn cyflogaeth. Drwy

ddadansoddi bylchau cyflog, mae'r bwrdd iechyd yn cael cipolwg ar wahaniaethau posibl a all fodoli ar draws gwahanol grwpiau demograffig. Mae hyn nid yn unig yn cyflawni dyletswyddau deddfwriaethol ond hefyd yn golygu y gellir gweithredu ymyriadau wedi'u targedu i unioni unrhyw anghydbwysedd. Mae adrodd ar fylchau cyflog yn fecanwaith tryloyw, gan hybu atebolrwydd a llywio ymrwymiad y bwrdd iechyd i gyfle cyfartal a thriniaeth deg i'r holl staff.

Casglu data:

Mae gwella cywirdeb y broses o gasglu data yn hollbwysig er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwella profiad staff. I gleifion a defnyddwyr gwasanaeth, mae alinio arferion casglu data â 'Fframwaith 3I', yn sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o annhegwch ym maes iechyd. Mae'r fframwaith hwn yn pwysleisio pwysigrwydd croestoriadedd, anghydraddoldeb, ac annhegwch ym maes iechyd.

O ran staff, mae casglu data cadarn, gan gynnwys gwybodaeth am fonitro cydraddoldeb a sgiliau Cymraeg, yn hollbwysig. Mae data cywir yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau gwell, gan alluogi'r bwrdd iechyd i deilwra strategaethau sy'n mynd i'r afael ag annhegwch o ran canlyniadau iechyd a phrofiadau staff. Nod sylfaenol dadansoddeg yw nodi, dehongli a chyfleu patrymau a all lywio penderfyniadau strategol a gwella perfformiad.

Drwy fireinio arferion casglu data yn barhaus, mae'r bwrdd iechyd yn sefydlu sylfaen ar gyfer ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n meithrin tegwch ar draws pob agwedd ar ei wasanaethau.

Monitro ac Adolygu

Byddwn yn monitro ein cynnydd yn erbyn yr amcanion a'r camau ategol yn barhaus, a fydd yn arwain at gyhoeddi adroddiad blynyddol. Bydd yr adroddiad yn crynhoi ein cynnydd ac unrhyw newidiadau i'n gwaith yn y dyfodol.

Bydd cynnydd yn cael ei adrodd drwy ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Mae ein Bwrdd yn atebol am yr amcanion cydraddoldeb, ac mae ein staff yn gyfrifol am gyflawni a rhoi'r camau gweithredu ar waith.

Adborth

Rydym yn gwerthfawrogi adborth am ein gwaith, gan gynnwys yr amcanion a'r camau a nodir yn y ddogfen hon, yn barhaus. Os hoffech rannu unrhyw adborth neu os hoffech drafod unrhyw agwedd ar ein gwaith, cysylltwch â:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Tîm Tegwch a Chynhwysiant
Llawr 1^{af}, Tŷ Coetir
Ffordd Maes y Coed
Llanisien
Caerdydd
CF14 4TT

Neu EquityAnd.Inclusion@wales.nhs.uk